# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 09/03/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Cai Rees Jones | Lleucu Jones |
| Alaw Llewelyn Roberts | Rhys Llewelyn | Rhys Tudur | Mared Llywelyn Williams | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
Sharon Williams, Janice Evans, Gwynfor Jones, Caren Jones, Carys Roberts. Oherwydd problemau linc zoom fe fethodd Gito Williams ymuno â'r cyfarfod.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
Cofnodion Pwyllgor Zoom 09/02/2021
Penderfyniad: derbyn yn gywir.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Cai Rees Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
**Cynnig i'r Cyngor Tref annog y LLywodraeth i dreialu argymhelliad 11 o'u hadroddiad ar ail gartrefi yn ardal Cyngor Tref Nefyn –** Rhys Tudur
Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi adroddiad ar ail gartrefi ac mae Simon Brookes sef y person sydd wedi ysgrifennu'r adroddiad wedi tynnu sylw Rhys Tudur i argymhelliad 11 sef treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi. Beth mae'r adroddiad yn cynnig yw fod ail gartrefi yn cael eu monitro yn well a bod rhaid cael caniatad cynllunio i drosi tŷ yn ail gartref. Mae Simon Brooks hefyd yn argymhell i gymunedau arfordirol dreialu y rheolau cynllunio yma ac felly fe fuasai'n dda o beth os y buasai cymuned CTN yn mynd tu cefn i hyn ac yn annog y Llywodraeth i dreialu fo yma yn ardal CTN. Felly y cynnig yw i CTN i dreialu argymhelliad 11.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i annog y Llywodraeth i dreialu argymhelliad 11 o'i adroddiad ar ail gartrefi yn ardal CTN.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams
**Creu Tabl** – Rhys Llewelyn
Gan fod yna gymaint o bethau da wedi digwydd drost y flwyddyn ddiwethaf gan CTN ynglŷn â'r ymgyrch ail gartrefi y byddai'n syniad creu tabl yn dangos y cynigion a basiwyd, dyddiad, cynllun gweithredu a beth sydd wedi digwydd wedyn.
Penderfyniad: Rhys Llewelyn i greu tabl a Rhys Tudur i anfon gwybodaeth iddo ar eiriad y cynigion.
Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Mared Llywelyn Williams
**Blodau Nefyn, Morfa ac Edern –** Gruffydd Williams
Mae £1,800.00 Grant Canol Trefi ar gael ac mae Gruffydd Williams wedi cael amcanbris am botiau blodau 'tripod tiered' gan gwmni Amberol. Mae'r potiau newydd yma yn cymeryd lle potiau blodau sydd ar y Stryd Fawr â'r Groes yn Nefyn yn barod.
Penderfyniad: mynd am 5 o'r potiau 'Amphora Precinct Planter with tiers of 500mm & 650mm' mewn du.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

**Llwybr Eglwys Morfa –** Gruffydd Williams
Mae Gruffydd Williams wedi cael sgwrs hefo Wyn Williams Pennaeth Adran Hawliau Tramwy ym Mhwllheli ynglŷn â llwybr Eglwys Morfa. Mae'r llwybr yma yn mynd ar hyd ben y wal sydd rhwng yr hen fynwent â'r fynwent newydd yn Morfa, o Stad Trem y Garn i Ysgol Morfa a gan fod yr Ysgol wedi ail agor a teuluoedd yn defnyddio'r llwybr yma i fynd i'r ysgol mae angen gwneud rhywbeth ar fyrder. Mae amod ar cais cynllunio Trem y Garn fod y datblygwr, Grŵp Cynefin i fod i wneud y llwybr yma yn lwybr saff i'r Ysgol ac mae Cynghorwyr lleol ar hyd y blynyddoedd wedi bod ar ôl hyn ond heb ddim lwc ac erbyn heddiw mae'r llwybr mewn cyflwr peryglus iawn. Mae swyddog wedi cael ei yrru allan i asesu'r llwybr ond nid oes ddiweddariad wedi ei dderbyn hyd yn hyn.
Penderfyniad: Llythyru Wyn Williams yn datgan siom nad oes dim wedi cael ei wneud ynglŷn â'r llwybr yma.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes
**Llwybr Penrallt –** Gruffydd Williams
Fe gafodd Llwybr Penrallt Nefyn ei gau oherwydd tirlithriad. Cafwyd asesiad gan Peiriannwyr Sifil Gwynedd yn dweud ei fod yn saff i'w ail agor ond mae'r cynghorydd lleol Gruffydd Williams yn annog bawb i fod yn wiliadwrus am ragor o dirlithriadau a craciau yn y llwybr gan ei fod yn agos iawn at y dibyn. Mae Wyn Williams wedi bod ar ôl rowlio'r llwybr yn ôl i erddi'r tai megis Cliff Top ond nid oes diweddariad wedi ei dderbyn ar y mater.
Cafwyd hefyd diweddariad gan Wyn Williams eu bod bron iawn wedi cael hyd i'r dogfennau sydd ynghlwm a tir Waldies fel fod y llwybr yn cael ei symud i fewn i maes parcio Cliffs.
**Llwybr y Morwyr –** Gruffydd Williams
Cafwyd cwyn gan Gruffydd Williams fod Gors Geirch yn warthus ac fod angen gyrru llythyr i Wyn Williams a lincio fewn Molly Lovatt, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dweud fod llinell Llwybr y Morwyr o dan ddŵr yn Gors Geirch. 'Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru eisiau gwneud y tir yn wlypach yn y fan yma ond nid ydynt wedi gwneud yn saff fod yr hawl tramwy yn sych ac mae'n rhaid sicrhau fod pobol yn gallu cerdded ar hyd y llwybrau. Rhan arall o'r Llwybr sydd angen sylw yw wrth ymyl Garreglwyd lle mae llyn yn bodoli, mae lefel y llyn wedi codi ac angen llwyth o gro 2" graean glan i'w godi fyny ychydig o fodfeddi oherwydd fod pobol yn gwlychu eu traed wrth gerdded.
Penderfyniad: Gyrru Llythyr i Wyn Williams a Molly Lovett i gwyno am Gors Geirch a Gruffydd Williams i gysylltu hefo Cliff Hughes i fynd a llwyth o gro i'r llyn, gyda caniatad y tir feddiannwr, i'w godi fyny ychydig o fodfeddi a'r arian yn dod o cyfrif Big.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Mared Llywelyn Williams
**Nwyddau mislif eco gyfeillgar am ddim –** cadeirydd/clerc
Derbyniwyd e-bost gan Nia Gruffydd yn dweud fod nwyddau mislif eco gyfeillgar ar gael am ddim i'w archebu gan y Gwasanaeth Llyfrgell ac yn gofyn am gymorth i dynnu sylw at y gwasanaeth yma. Fe wnaeth Mared Llywelyn Williams godi'r peth fisoedd yn ôl mewn pwyllgor wyneb yn wyneb o CTN ac mae hi am roi hysbys ar y cyfryngau cymdeithasol.
**Nosweithiau Tywyll 'Dark Skies' – Gruffydd Williams**
Fe ddaeth y mater yma o flaen y cydbwyllgor ymgynghorol yr AHNE cyn y nadolig gyda'r bwriad iddo gael ei fabwysiadu a beth y maent yn ei ofyn ydi i leihau llygredd golau ym Mhen Llŷn. Mae angen pwyso a mesur a cael trafodaeth iawn am y mater a cael pleidlais i benderfynnu os yw CTN o blaid hyn neu yn ei erbyn.
Penderfyniad: Agenda mis Ebrill er mwyn cael cyfle i edrych i mewn i'r mater.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

5. **Cynnig ymchwil manwl i fonitro effaith ail gartrefi ar gymunedau–** Rhys Tudur – Diweddariad
   Mae Rhys Tudur wedi bod yn trio meddwl pwy fysa orau i ymgynghori â nhw i feddwl am y cam nesaf ymlaen ond ar ôl darllen adroddiad Simon Brookes mae argymhelliad 12 yn annog y Llywodraeth i sefydlu commissiwn i edrych ar effaith gwahanol bethau economaidd megis brexit ar yr iaith Gymraeg yn ogystal ac ail gartrefi. Mae Rhys Tudur felly yn cynnig fod CTN yn mynd ar ôl argymhelliad 12 gan Simon Brookes i'r Llywodraeth sefydlu commissiwn i edrych ar effaith yr ail gartrefi a phethau economaidd ar yr iaith Gymraeg mewn cymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn iaith fyw, ac hefyd yn annog Cyngor Gwynedd yn eu Cynllun Datblygu Lleol i newid y ffordd y maent yn ystyried yr iaith Gymraeg wrth ddelio gyda ceisiadau cynllunio sydd yn cael effaith ddrwg ar yr iaith Gymraeg.
   Penderfyniad: Rhys Tudur i gael geiriad y cynnig yn iawn a gadael i'r clerc wybod pa bryd i'w roi ar yr agenda.

6. **Rhandiroedd y Ddôl –** Clerc
   Mae'r clerc wedi cychwyn y broses o fynd ar ôl y cyfraniad ariannol Cytundeb 106 Maes y Garn, Nefyn drwy anfon gwybodaeth i Aneurin Môn Parry. Mae 6 pwynt i'w ddilyn er mwyn cael yr arian yma ac mae angen cadw i'r broses yma a'i gwbwlhau yn dderbyniol o safbwynt yr Adran Gynllunio. Ym mhwyllgor mis Tachwedd fe basiwyd ein bod yn rhoi rhan o'r rhandiroedd i brosiect gan Tafarn yr Heliwr ar gyfer y gymuned ond oherwydd ein bod mewn cytundeb gyda Cyngor Gwynedd a oedd yn dweud nad oeddem i roi mwy nac un rhandir i un person nid yw'r prosiect yma wedi medru cychwyn. Erbyn rwan mae'r clerc wedi cael cadarnhad gan yr Adran Stadau ein bod yn cael rhoi mwy nac un rhandir i un person mae Tafarn yr Heliwr eisiau symud ymlaen gyda'r prosiect.
   Penderfyniad: Y clerc â'r cadeirydd i fynd ar ôl Aneurin Môn Parry i gyflymu'r broses o dderbyn y cyfraniad ariannol a'i roi ar agenda mis Ebrill a neb i fynd ar y safle hyd nes y bydd y cyfraniad ariannol wedi ei dderbyn a'r Rhandiroedd wedi cael eu sychu allan.
   Cynnig: Gruffydd Williams          Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

7. **Meinciau –** Diweddariad
   Cafwyd diweddariad gan Gruffydd Williams fod y meinciau drost y ffordd â'r Gôf Golofn yn mynd i gael eu adnewydd o dan cais nawdd gan Cyngor Gwynedd.
   Mae yna bren wedi cael ei roi ar meinciau Y Lôn Gam ond mae angen eu 'sandio'gan fod dipyn o 'splinters' ynddynt.
   Gofynwyd i Janice Evans fynd i edrych ar meinciau Morfa yng nghyfarfod mis Chwefror ond mae hi wedi ymddiheuro heno felly nid oes diweddariad ar meinciau Morfa. Mae angen gwaith ar rhai o feinciau Nefyn ac Edern fel y mae Gruffydd Williams ac Caren Jones wedi adrodd yn barod ac angen rhywun proffesiynnol i baratoi'r coedyn cyn ei beintio.
   Penderfyniad: Gruffydd Williams i ofyn am amcanbrisiau gan Mark Hughes a Gareth Williams a cael diweddariad gan Janice Evans ar meinciau Morfa a'i roi ar agenda mis nesaf.
   Cafwyd diweddariad ar meinciau y Gôf Golofn gan Arfon Hughes, mae Carys Roberts wedi cael e-bost gan y cymwni ond yn methu ei agor ar y funud i weld yn union beth yw'r prisiau. Mae Carys Roberts ac Arfon Hughes wedi bod at y Gôf Golofn i weld ynglŷn â cael asesiad risc ac nid ydynt yn gweld problem.

Penderfyniad: Unwaith y bydd Carys Roberts wedi medru agor yr e-bost i weld beth yw'r prisiau mae angen ei anfon i'r clerc a'r clerc ei anfon allan i'r aelodau.

8. **Mynwent Morfa Nefyn –** Clerc
Cafwyd cyfarfod ym mynwent Morfa rhwng Gruffydd Williams, Arfon Hughes, y Cadeirydd a'r Clerc i weld beth oedd y sefyllfa ynglŷn â cael estyniad i'r fynwent gan nad oes llawer o le ar ôl i gladdu. Penderfynwyd ar y noson i ofyn i'r tir feddiannwr am gael prynnu rhan o'r cae drws nesaf a gan fod y clerc yn nabod y tir feddiwnnwr cynnigiodd gysylltu a nhw i ofyn. Eu ymateb oedd eu bod yn cytuno i drafodaethau fynd ymlaen ond eu bod hefyd yn gobeithio y byddai hwn yn dir ar gyfer adeiladu tai yn y dyfodol ac efallai y buasai'n ddoeth iddynt nhw a CTN gael rhywun i brisio'r tir.
Penderfyniad: y clerc i ofyn i'r tir feddiannwr drefnu cael prisio'r pishyn tir sydd yn cario lawr o'r fynwent at Tawelfan, Lôn Cefn Morfa a cysylltu nôl gyda CTN wedyn.
Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Rhys Llewelyn

9. **Diwrnod gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a Rheng Flaen 5ed Gorffennaf 2021** – E-bost Un Llais Cymru dyddiedig 4/1/2021
Gyrrwyd mwy o wybodaeth ynglŷn â'r digwyddiad yma i bawb ar ôl y pwyllgor diwethaf er mwyn penderfynnu os ydi CTN am gymeryd rhan yn y digwyddiad. Cafwyd diweddariad gan y clerc fod modd cofrestru unrhyw ddigwyddiad unrhyw bryd i fyny at 1af o Orffennaf ac hyd yn hyn nid oes llawr o gynghorau wedi cofrestru.
Penderfyniad: os oes unrhyw aelod isho i CTN gymeryd rhan yn y digwyddiad yna i adael y clerc wybod.

10. **Coed ger Ysgol Edern –** amcanbrisiau
Derbyniwyd dau bris gan gontractwyr lleol, un gan Ian Williams a'r llall gan Terry Hough.
Penderfyniad: cynnig y gontract i Ian Williams.
Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Rhys Llewelyn

11. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    - **Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen –** cyfraniad ariannol
    Penderfyniad: gan nad yw'r clerc byth wedi derbyn y datganiad banc gan y clwb, er ei fod wedi gofyn amryw o weithiau, ei roi ar agenda mis nesaf a trio eto i gael y datganiad.
    - **Clwb Peldroed Nefyn Unedig –** cyfraniad ariannol
    Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £3,000.00 iddynt tuag at y meinciau.
    Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Rhys Tudur
    - **Cymorth Canser Macmillan –** cyfraniad ariannol
    Penderfyniad: y clerc ac Arfon Hughes i edrych os ydynt wedi cael cyfraniad gan CTN yn y gorffennol ac os ydynt faint a gadael i weddill yr aelodau wybod.
    - **NSPCC –** cyfraniad ariannol
    Penderfyniad: y clerc ac Arfon Hughes i edrych os ydynt wedi cael cyfraniad gan CTN yn y gorffennol ac os ydynt faint a gadael i weddill yr aelodau wybod.

12. **Ceisiadau Cynllunio**

**Ceisiadau Diweddarach**

**C21/0167/42/DT –** Tan y Mynydd, Mynydd Nefyn – Dymchwel storfa allanol bresennol, addasiadau i'r prif dŷ presennol ac estyniad rhannol unllawr, rhannol deulawr i'r ochor a'r cefn i greu rhagor o ofod byw – Penderfyniad: Gwrthod - Ormesol yn y tirlun yma, gor-ddatblygiad, dynodedig sef AHNE gan amharu ar olygfeydd i fewn ac allan o'r AHNE, croes i bolisi Cynllun Unedol Gwynedd a gormod o unedau gwyliau yn yr ardal. Hefyd cafwyd cais blaenorol ym mis Ionawr 2020 ac mae'r Cyngor Tref yn teimlo nad oes newid o gwbwl yn maint llorweddol y cais yma a'r cais blaenorol.

**C21/0195/42/LL –** Caeau Capel Hotel, Rhodfa'r Môr, Nefyn – Trosi anecs presennol sydd yn cynnwys uned byw a 4 ystafell wely ynghlwm a gwesty i gynnwys ystafelloedd ychwanegol i'r uned byw ynghyd a chreu uned gwyliau hunan wasanaeth tymor byr – Penderfyniad: Gwrthod – gormodedd o unedau gwyliau yn yr ardal. Hefyd cafwyd cwyn gan un o'r cynghorwyr fod yna ddipyn o waith yn mynd ymlaen ar y safle yma ac angen dod a hyn i sylw'r Aneurin Môn Parry Pennaeth Gorfodaeth rhag ofn fod y gwaith wedi ei gychwyn heb gael caniatad cynllunio.

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £935.24
- John Gwynfor Jones – ail-agor bedd Grace Bates Nee Hughes - £400.00
- John Gwynfor Jones – ail-agor bedd llwch Elizabeth Evans - £70.00
- Nefyn Foods – Rent Siop Siarad - £780.00
- Cliff Hughes – Taliad 10 cytundeb llwybrau - £1558.34 & gwaith ychwanegol - £524.88 = £2083.22
- Ashley Hughes – Offer swyddfa - £54.03
- Designer Signs – Arwyddion mynwent Nefyn - £149.40
- Designer Signs – Arwyddion Bryn Mynach - £125.40 – cyfrif Bryn Mynach
- N Power – Trydan Llyfrgell Nefyn mis Chwefror - £170.45

  Penderfyniad: Talu pob anfoneb

  Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Llewelyn

**14. Taliadau wedi eu derbyn:**

- G W Parry – angladd Charles Thomas Morgan - £485.00
- Barringtons Funeral Services – angladd Grace Bates Nee Hughes - £815.00
- G D Roberts – angladd Richard Elwyn Dobson - £980.00

Mae'r Cadeirydd yn ymddiheuro ei bod wedi gorfod gadael y cyfarfod oherwydd problemau technegol.